**Enw'r Ysgol: Bro Tryweryn** **Cyfeiriad: Frongoch, Y Bala, Gwynedd. LL23 7NT**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion, asesiadau athrawon a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol; Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009).

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Mae safonau Addysg Grefyddol y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Dengys adroddiad craffu ar lyfrau'r disgyblion fod cynnydd da yng ngwaith y disgyblion. Mae bron bob un o'r disgyblion yn deall ac yn gallu egluro yn glir beth yw tegwch, cyfeillgarwch, caredigrwydd, gofal a chariad tuag at eraill.
Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn trafod a chynllunio gweithgareddau dyngarol megis trefnu bore coffi MacMillan, Plant Mewn Angen, Unicef. Aelodau'r Cyngor sy'n penderfynu pa elusen fydd yn derbyn arian casgliad Diolchgarwch yr ysgol.
Mae bob un disgybl o'r ysgol yn ymweld a chapeli lleol i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn flynyddol ac yn ymweld a Chartref yr Henod i gynnal gwasanaethau Diolch a Nadolig – mae hyn yn arfer rhagorol.
Dengys adroddiad Llywodraethwraig fod y disgyblion yn ymateb yn ddeallus a gonest iawn mewn gwasanaethau ac yn cymryd rhan flaenllaw.

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Mae'r llyfrau yn arddangos medrau llythrennedd, rhifedd, TGCH a meddwl da ac yn arddangos cynnydd.

**Materion i gael sylw**

Mwy o waith ysgrifennu estynedig.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).
-

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009.

**Yr addysgu mewn addysg grefyddol: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Rhoddir amser penodol bob wythnos i Addysg Grefyddol – yng Nghyfnod Sylfaen rhoddir unai gwers Addysg Grefyddol neu cyfle i ddisgyblion drafod materion megis - pwysigrwydd cyfeillgarwch, tegwch, caredigrwydd yn ystod cyfnodau Amser Cylch.
Yng Nghyfnod Allweddol 2 rhoddir un wers Addysg Grefyddol yn wythnosol.

| |
|---|
| Mae'r athrawon a gwybodaeth pynciol da.<br>Cynllunir ymweliadau ac addoldai lleol, defnyddir arteffactau crefyddol e.e. mat gweddi a defnyddio fidio a gwefannau i gyflwyno uned o waith arbennig.<br>Dengys adroddiad craffu ar lyfrau fod yr athrawon yn gosod nod a mpll ar gyfer y rhanfwyaf o'r gwersi. |
| **Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**<br>Cynllunir gweithgareddau yn fanwl a diddorol gan nodi sgiliau FfLlRh a'r Maes Llafur Cytun Lleol. Defnyddir amrywiaeth o adnoddau megis Pobl, Credoau a Chwestiynau ar gyfer annog y disgyblion i feddwl a mynegi barn. |
| **Materion i gael sylw**<br>Mwy o sylw i Rifedd yn y gwersi Addysg Grefyddol. |

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | ✓ **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2012). | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br>Dengys adroddiad monitro Addoli ar y Cyd gan y Llywodraethwyr fod ansawdd yr addoli yn dda iawn.<br>Cynhelir Addoli ar y Cyd yn ddyddiol yn yr ysgol – tair gwaith ysgol gyfan a dwy addoli yn y dosbarthiadau.<br>Rhoddi'r cyfle i'r disgyblion gymryd rhan drwy ganu, ymateb, darllen, cynnal gwasanaethau.<br>Mae athrawon yr ysgol yn cymryd eu tro i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan yn wythnosol.<br>Mae disgyblion blwyddyn 2 yn cyd-gynllunio gwasanaethau e.e. Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r athrawes.<br>Mae'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan yng Ngwasanaethau Cyhoeddus gan yr ysgol – e.e. Gwasanaeth Diolchgarwch, Nadolig. Mae ei sgiliau llefaru a gwrando ar eraill yn dda iawn - maent yn dangos parch tuag at eraill wrth wrando ac ymateb iddynt yn ddeallus a bonheddig. Mae sgiliau darllen yn gyhoeddus a perffomio Gwasanaeth ar gyfer cynlleidfa yn dda iawn.<br>Caiff y disgyblion gyfleoedd bob mis i wrando a chymryd rhan mewn gwasanaeth gan Weinidog yr Ardal a Pennaeth Coleg Y Bala. Yn ystod y cyfnodau yma dangosai'r disgyblion ddealltwriaeth cadarn o storiau o'r Beibl a hefyd am gariad Duw a Christ. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Gwrando ar gerddoriaeth i greu naws.<br>Defnyddio Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i arddangos fidio ayyb. | | |

| **Rhagorol** | ✓ | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Jano Owen* (Pennaeth)

Dydddiad: 23ain o Ionawr, 2015.